Cofnodion cyfarfod misol dyddiedig 21 Ebrill 2026 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr.	
PRESENNOL	
Eifion Williams	Emyr Gareth
Eleri Wyn Thomas	Owain Jones
Dan Williams	Iolo Williams
Llŷr Evans	

1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	**CLERC**
1.2	Prydles Hen Rheilffordd – y brydles yn derbyn sylw gan Gyfreithiwr y Cyngor. Gobeithir am sylwadau erbyn y cyfarfod nesaf.	**CLERC**
1.3	Safle Bws ger y Chans – mae'r safle bws yn parhau i beidio gael ei ddefnyddio gan Arriva oherwydd bod y safle yn parhau i gael ei rwystro gan gerbydau yn parcio yno. Mae'r Clerc wedi derbyn sylwadau gan Adain Draffig Cyngor Sir yn datgan bod parcio o fewn y safle yn fater ar gyfer gorfodaeth yr Heddlu. Mae cais wedi mynd at yr Heddlu i ofyn am gydweithrediad yn y mater a disgwylir ymateb ganddynt.	**CLERC**
1.4	Cyflwr Lon Las – mae cyflwyr wyneb y Lon Las o'r Felinheli tuag at Gaernarfon yn ddifrifol yn enwedig ger Plas Bereton a hen safle Fedrodo. Mae'r Cyngor Cymuned eisoes wedi derbyn gwybodaeth nad oedd cyllid ar gael ar gyfer gwaith cynnal a bod gangen ymgyrchu gan aelodau lleo a'r Cyngor Cymuned i ddatrys y sefyllfa o wella'r wyneb i'r defnyddwyr ac i osgoi unrhyw digwyddiadau a fyddai yn gallu achosi damweiniau. Y Clerc i anfon unwaith eto at yr aelodau Lleol a hefyd yr uned Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd.	**Clerc**
1.5	Safle Parcio Seilo – mae ymateb wedi dod oddiwrth Lywodraeth Cymru yn cydnabod derbyn yr ymholiad. Gobeithir derbyn dilyniant o fewn y dau fis nesaf.	
1.6	Waliadu Cynnal – Mae cyfres o ddiffygion strwythurol wedi'u canfod ar sawl adran o'r mur cynnal ar hyd Ffordd Caernarfon. Ymddengys bod y diffygion hyn yn datblygu dros amser ac maent bellach yn peri risg uniongyrchol i ddiogelwch y briffordd. Maen'n amlwg bod bod sawl rhan o'r yn gwal yn gwthio allan i mewn i'r lôn fyw. Mae maint y gwyriad yn amrywio rhwng lleoliadau ond mae'n ddigon sylweddol i effeithio ar lif arferol y traffig. Mae'r dadleoliad yn awgrymu symudiad neu fethiant posibl yn strwythur y wal. Mae Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r mater ac yn monitro y sefylld. O ganlyniad i'r mur yn ymestyn i mewn i'r lôn, mae gyrwyr yn gorfod symud oddi wrth ymyl y ffordd ac i ganol y cbriffordd. Mae hyn yn creu effaith culhau, gan leihau'r lled	

Heather Lynne Jones

	sydd ar gael ac yn cynyddu'r perygl o wrthdaro rhwng traffig sy'n teithio i gyfeiriadau gwahanol. Mae cerbydau mwy, gan gynnwys bysiau ac HGVs, yn cael eu heffeithio'n arbennig, gyda rhai yn gorfod croesi'r llinell ganol er mwyn pasio'n ddiogel. Mae'r sefyllfa bresennol yn peri pryder diogelwch sylweddol, yn enwedig yn ystod cyfnodau o draffig trwm neu weledded gwael.	
1.7	Adduned Un Llais Cymru ar Gwrteisi a pharch – llofnodwyd yr adduned.	
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Eitem 10.1 Cynghorydd Emyr Gareth	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Derbyniwyd gwariant mis Mawrth 2026. Derbyniwyd hefyd adroddiad ariannol am y mis hwnnw.	**CLERC**
3.2	Dywedodd y Clerc bod problem wedi bod gyda cardiau awdurdodi ar lein y Clerc a'r Cynghorydd Daniel Williams a bod taliadu wedi llithro i mis Ebrill o ganlyniad.	
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Bydd Cofnodion Ionawr mas Mawrth yn cael eu cadarnhau yn mis Ebrill	
4.2	Cynllun Rheoli Traffig - gweler isod adroddiad o'r cyfarfod rhithiol Cynllun Traffig pan fo'r Ffordd Osogi y Felinheli wedi ei chau – Dargyfeirio Traffig Cyfarfod Rhithiol Dyddiad y Cyfarfod 26 Mawrth 2026 **Yn Bresennol** Daniel Williams – Cyngor Cymuned Y Felinheli Emyr Gareth – Cyngor Cymuned Y Felinheli Dafydd Huws – Cyngor Cymuned Y Felinheli Andrew Gregson – Cyngor Gwynedd Ian Morgan – Cyngor Gwynedd **Trafodaeth ar Flaenoriaethu Cau'r Ffordd Osgoi Y Felinheli a Rheoli Traffig drwy'r pentref** Trafodwyd y trefniadau ar gyfer blaenoriaethu cau'r Ffordd Osgoi pan fo digwyddiad, a'r angen i sefydlu llwybr arall i gyfeirio traffig cyn gynted â phosibl wedyn. Cytunwyd mai'r opsiwn mwyaf ymarferol fyddai atal traffig rhag mynd i mewn i'r Felinheli o gyfeiriad Caernarfon, a'i gyfeirio ymlaen at y Cylchdro ger Cibyn. Roedd yr aelodau'n unfrydol eu barn bod y drefn hon yn dderbyniol.	

	• Byddai'r trefniant yn galluogi gweithwyr o swyddfeydd priffyrdd Cibyn i gyrraedd y safle'n gynt ac yn haws. • Byddai hyn hefyd yn lleihau'r amser teithio i gyrraedd ochr arall y pentref, gan wella ymateb i unrhyw argyfwng. • Byddai cau'r cylchdro yn caniatáu i staff fod yn bresennol i gyfeirio traffig, gan sicrhau mai dim ond traffig sydd angen mynediad i'r Felinheli fyddai'n cael dod i mewn. • Ni fyddai angen arwyddion ychwanegol ar ochr Bangor, heblaw am y rhai i nodi bod y Ffordd Osgoi wedi'i chau. • Byddai teithwyr o'r cyfeiriad hwnnw yn rhydd i deithio drwy'r pentref i gyrraedd Caernarfon. • Byddai arwyddion priodol yn cael eu gosod i rybuddio bod y Ffordd Osgoi ar gau. • Cyngor Gwynedd fyddai'n gyfrifol am gostau'r cynllun.	
4.3	Llwybr Cerrig yr Afon – bydd cyfarfod safle gyda Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd.	
4.4	i. Prydles Stad y Goron – dim dilyniant wedi bod ar gyfer y brydles. Y Clerc i anfon at yr asiant unwaith eto,	
4.5	Datblygu Lon Las Drwy'r Felinheli – Bydd angen anfon Gyngor Gwynedd yn Mis Medi ar gyfer eu hatgoffa i sicrhau arian ar gyfer gwneud adroddiad dichololdeb.	
4.6	Cais cynllunio ar gyfer ffens y Cae Chwarae Pêl Droed wedi ei gyflwyno – y Clerc i wneud ymholiadau ar gyfer cael prisiau i godi'r ffens.	
5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
5.1	Rhif Cais: C26/0195/20/LL Lleoliad: Land To The Front Of Yr Heulyn, Hen Gei Llechi, Felinheli, LL56 4JN Bwriad: Codi deildy arfaethedig i greu ardal eistedd dan do dros yr ardal eistedd / adloniant Bresennol. **Dim Gwrthwynebiad** – ond nodir y pryderon canlynol gan etholwyr Er nad oes gwrthwynebiad ffurfiol i'r datblygiad arfaethedig, hoffir tynnu sylw'r Awdurdod at nifer o faterion sydd wedi'u codi gan drigolion lleol sy'n defnyddio'r ardal yn rheolaidd. Trwyddedau – Adloniant ac Alcohol Mae'r cais yn cyfeirio at drwydded adloniant yn unig. Fodd bynnag, mae etholwyr wedi nodi'n glir fod alcohol yn cael ei yfed yn yr ardal yn rheolaidd.	

	Cwestiwn i'w egluro: • A oes trwydded eiddo (premises licence) ar waith ar y safle ar hyn o bryd sy'n caniatáu yfed alcohol? • Os nad oes, a yw'r gweithgareddau presennol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth drwyddedu berthnasol? Mae eglurder ar hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau nad yw'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio neu'n ehangu gweithgaredd sydd heb drwydded briodol. Yn y gorffennol roedd fan pizza ar y safle; bellach mae treilar sy'n gwerthu byrgyrs a bwydydd eraill yn gweithredu yno. Pryderon a godwyd: • A oes angen caniatâd cynllunio i'r teilar • A yw'r defnydd presennol yn cael ei ystyried yn estyniad o ddefnydd masnachol nad yw wedi'i gynnwys yn y cais? Mae trigolion yn dymuno sicrwydd bod y gweithgareddau presennol a'r rhai arfaethedig yn cael eu rheoleiddio'n briodol. Mae trigolion wedi nodi bod arogl bwyd o'r treilar presennol yn teithio dros yr ardal, yn enwedig yn ystod oriau prysur. Mae hyn yn peri pryder o ran: • effaith ar ansawdd bywyd trigolion cyfagos • effaith ar ddefnyddwyr yr harbwr a'r llwybrau cerdded Casgliad Nid oes gwrthwynebiad i'r deildy arfaethedig ei hun, ond mae trigolion yn dymuno gweld eglurder llawn ar faterion trwyddedu, defnydd masnachol y safle, a rheoli arogl. Byddai ymateb clir gan yr Awdurdod yn helpu sicrhau bod y safle'n cael ei ddefnyddio'n gyfrifol ac yn unol â'r rheoliadau perthnasol.	
6.0	**RHEOLAETH**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau.	
6.2	Y Pwyllgor i adolygu Polisi Egwyddorion grantiau bach. Hefyd i adolygu Polisi Meinciau Coffa ar gyfer ei fabwysiadu gan y Cyngor HYN I DDIGWYDD ERBYN MIS MAI	
7.0	**ASEDAU**	
7.1	Cysgodfanau – dywedodd y Clerc ei bod heb ddweud wrth Designer Signs i gwblhau y gwaith hyd yma oherwydd bod adroddiad wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd bod gwaith cynnal a chadw a'r gysgodfan ger yr Eglwys, roedd	**CLERC**

	y murlun wedi ei falu. Trafodwyd hyn a phenderfynwyd efallai bod modd cyflwyno gwaith arall ar y gysgodfan a hefyd ar rai eraill o fewn y pentref. Penderfynwyd i'r Clerc trafod ag artist lleol ynghyd a chyfeillion yr ysgol. Dywedwyd bod y murlun wedi ei roi oherwydd bod y ffenest polycarbon mewn cyflwr drwg. Penderfynwyd bod angen cyflwyno ffenest newydd. Penderfynwyd cael cyfarfod safle gyda'r contractwy.	
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD**	
8.1	Gweler eitem 1.4	**CLERC**
8.2	Tir yr hen Rheilffordd – mae japanese knotweed wedi ei ddarganfod ar y Lon Las. Mae dau ardal angen triniaeth. Y Clerc i anfon at y Swyddog, hefyd gobeithir dangos y lleoliadu iddo pan fydd ymweliad safle i lwybr Cerrig yr Afon.	**CLERC**
8.3	Mae ffens tu ôl i Stryd Bangor tuag y sied motobeic wedi dod i lawr, bydd angen dweud wrth o hyn hefyd.	
9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Dim byd pellach i'w adrodd i'r hyn a gofnodwyd mis diwethaf.	**CLERC**
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
10.1	Mae hyfforddiant yn unol a'r asesiad risg wedi ei drefnu	**DW**
Llofnod:		**Dyddiad:**